OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 452 (Cy.43)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *24 Chwefror 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *25 Chwefror 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 12 a 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 25 Chwefror 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i anheddau yng Nghymru yn unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “Rheoliadau 1998” yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998(**2**).

### Diwygiadau i Reoliadau 1998

**3.** Mae Rheoliadau 1998 yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

(1) Yn rheoliad 2, ar ôl y diffiniad o “Class B”, mewnosodwch y canlynol —

““Class C” means the class of dwellings described in regulation 5A;”.

(2) Yn rheoliad 3 Rhif wch y geiriad presennol yn baragraff (1) ac ar ôl y paragraff hwnnw mewnosodwch —

“(2) Class C is prescribed as a class of dwellings for the purposes of section 12 of the Act for each financial year beginning on or after 1st April 2004.”.

(3) Ar ôl diwedd rheoliad 5 mewnosodwch y canlynol —

(**1**) 1992 p.14. Amnewidiwyd adran 12 gan adran 75(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae adran 113(1) wedi'i diwygio gan adran 127(1) o'r Ddeddf honno a pharagraffau 40, 52(1) a 52(2) o Atodlen 7 iddi.

(**2**) O.S. 1998/105. *Gweler* adran 75(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ar gyfer effaith barhaol y Rheoliadau hyn.

"**Class C**

**5A.** The class of dwellings described in this regulation ("Class C") comprises every chargeable dwelling in Wales —

(a) which is unoccupied; and

(b) which is substantially unfurnished.".

(4) Ym mharagraff 3 o'r Atodlen yn lle'r geiriau "section 168(8) to (10) and (12) of the Income and Corporation Taxes Act 1988"(**3**) rhowch y geiriau "sections 67 and 69 of the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003(**4**) in relation to the benefits code".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
24 Chwefror 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1988 p.1.
(**4**) 2003 p.1.
(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") (Disgowntiau: darpariaeth arbennig i Gymru), fel y'i hamnewidiwyd gan adran 75(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi, drwy reoliadau, un neu ragor o ddosbarthau ar anheddau yng Nghymru at ddibenion penodol fel y'u nodir yn is-adrannau (3) a (4) o'r adran honno. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 12 a 113(1) o Ddeddf 1992 ac maent yn rhagnodi dosbarth newydd ar anheddau.

Rhagnododd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 ("Rheoliadau 1998") ddau ddosbarth ar anheddau (Dosbarth A a Dosbarth B) at ddibenion adran 12 o Ddeddf 1992. Yr oedd y dosbarthau hynny yn gymwys ar gyfer pob blwyddyn ariannol a oedd yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998. Yn rheoliad 3 mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1998 drwy ragnodi dosbarth ychwanegol ar anheddau (Dosbarth C) a fydd yn gymwys ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004. Mae Dosbarth C yn cynnwys pob annedd drethadwy yng Nghymru sydd heb ei meddiannu ac sydd i raddau helaeth heb ei dodrefnu. Effaith rhagnodi Dosbarth C yw caniatáu i awdurdodau bilio yng Nghymru leihau neu derfynu, o 1 Ebrill 2004 ymlaen, y disgownt treth gyngor ar gyfer anheddau trethadwy sydd heb eu meddiannu ac sydd i raddau helaeth heb eu dodrefnu.

Mae rheoliad 3(4) yn diwygio Rheoliadau 1998 i ddiweddaru diffiniadau penodol yn y Rheoliadau hynny drwy gyfeirio at Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003.